
Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2019
10:00am tan 11:00am

Ystafell Gynadledda Llywodraeth Cymru, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion

AELODAU

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn AC, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Barwnes Debbie Wilcox (Casnewydd)
Y Cyng. Andrew Morgan (RhCT)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam) (dros y ffôn)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd) (dros y ffôn)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe) (dros y ffôn)

Comisiynwyr Heddlu a Throsedd

Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Paul Griffiths – Cyngorydd Arbennig
Sara Faye – Cyngorydd Arbennig
Alex Bevan – Cyngorydd Arbennig
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a
Phartneriaethau Gweithlu
Margaret Davies – Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol, Trysorlys Cymru
Debra Carter – Pennaeth Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Peter Fox (Sir Fynwy)

Eitem Agenda 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) aelodau i bumed cyfarfod yr Is-Grŵp Cyllid yn 2019 a diolchodd iddynt am fynychu ar fyr rybudd.

Eitem Agenda 2: Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol (Papur 1)

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Eitem Agenda 3: Cyhoeddi'r Gyllideb a Setliadau – Rheoli'r Ansicrwydd

3. Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau fod Llywodraeth Cymru eisiau darparu cymaint o eglurder â phosibl ynghylch y gyllideb. Cytunwyd ar ddyddiad y gyllideb gyda'r Pwyllgor Busnes, sef 16 Rhagfyr, a chyhoeddir y gyllideb trwy Ddatganiad Ysgrifenedig gan fod y dyddiad yn digwydd yn ystod toriad.
4. Nododd y Gweinidog ei bod hi'n deall goblygiadau Cyllideb Ddrafft hwyrach i osod cyllidebau cynghorau, ond gobeithiai y byddai'r dyddiad diwygiedig o hyd yn caniatáu i gynghorau ddilyn y gweithdrefnau angenrheidiol.
5. Adleisiodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei rhwystredigaeth â'r oedi. Esboniodd fod trafodaethau trawsbleidiol wedi'u cynnal a bod cytundeb llawn i oedi tan 16 Rhagfyr. Byddai'n ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar gyfer cyfarfod wedi'i drefnu yn ystod y toriad, ar 18 Rhagfyr. Hefyd, cadarnhaodd y bydd hi'n rhoi datganiad ar ddiwrnod busnes y cyfarfod llawn cyntaf ym mis Ionawr. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y bydd y Gyllideb Derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 25 Chwefror a chynhelir y drafodaeth ar y gyllideb ar 3 Mawrth.
6. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ymddangos gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 8 Ionawr 2020.
7. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i gyhoeddi gwybodaeth am grantiau penodol yn gynt nag yn y blynyddoedd diwethaf ac ar yr un pryd â'r gyllideb, lle bynnag y bo'n bosibl.
8. Croesawodd y Cyng. Barwnes Debbie Wilcox y camau i roi sefyllfa mor glir â phosibl i awdurdodau lleol ac roedd hi'n ddiolchgar am lefel y wybodaeth a rannwyd eleni, a gwnaeth erfyn am barhau i gydweithio.
9. Dywedodd y Cyng. Anthony Hunt fod mynd ati eleni i osod a chynllunio'r gyllideb wedi'i wneud gyda'r ysbryd cywir o bartneriaeth. Croesawodd y wybodaeth gynnar am grantiau a sicrhaodd ef y Gweinidog fod llywodraeth leol wedi bod yn

defnyddio'r amser i wneud gwaith yn y cefndir fel y gallant weithredu'n syth ar ôl cyhoeddi'r gyllideb, a tharo cydbwysedd rhwng y ddyletswydd i ymgynghori a'r angen i roi sicrwydd i wasanaethau rheng flaen.

10. Cododd y Gweinidog ddau faes eraill i'w hystyried. Yn gyntaf, roedd hi'n deall bod ymgynghoriadau ar y gyllideb yn mynd rhagddynt mewn dau awdurdod ar hyn o bryd ac y byddent, efallai, eisiau oedi neu ailystyried yr amseru. Roedd awdurdodau eraill wedi penderfynu oedi ac roedd hi'n cefnogi'r penderfyniad hwnnw. Nid yw'r amserlen yn ddelfrydol, ond mae o hyd yn rhoi digon o amser i awdurdodau ymgynghori â rhanddeiliaid a phreswylwyr cyn gosod eu cyllidebau eu hunain.
11. Yn ail, nododd y Gweinidog y dylai'r cyhoeddiad ar 16 Rhagfyr o hyd roi amser i ystyried yr angen am brosesau ac ymgynghoriadau ar ddiswyddiadau, er na allai ddweud gair am lefel y gyllideb.
12. Nododd y Cyng. Hunt fod ymgynghori ar y gyllideb yn arfer da, ond nad oedd codi ofn ar staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddiangen yn fuddiol ac roedd llawer o gynghorau wedi oedi hyd nes byddent yn cael mwy o sicrwydd am yr adnoddau y byddent yn ymgynghori arnynt.
13. Dywedodd y Cyng. Andrew Morgan fod Rhondda Cynon Taf yn dechrau ar ymgynghoriad lefel uchel, pedair wythnos, ar flaenoriaethau a meysydd buddsoddi ar 21 Tachwedd, ac y byddai ymgynghoriad byrrach, 3 wythnos, ar y gyllideb yn dilyn ym mis Ionawr.
14. Cytunodd y Gweinidog fod rhai awdurdodau yn ymgynghori nawr ar gynlluniau corfforaethol ac nad oedd yr oedi i'r gyllideb yn effeithio ar hyn. Mae awdurdodau yn cynnal eu hymgyngoriadau yn wahanol.
15. Gofynnodd y Gweinidog, yn ddamcaniaethol, am farn aelodau am gyllido gwaelodol a ph'un a oedd barn gyfunol am gadw'r cyllid gwaelodol o fewn canran benodol i'r newid cyfartalog i'r setliad. Yn ddiweddar, roedd hwn wedi bod yn 0.5% o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru.
16. Dywedodd y Cyng. Hunt y byddai'n arwain trafodaeth ehangach ar hyn yng nghyfarfod Cyngor CLILC a gynhelir ar 29 Tachwedd.
17. Nododd y Cyng. Mark Pritchard fod y cyllid gwaelodol yn hanfodol o safbwynt ei awdurdod ef (Wrecsam) ac y gallai'r effaith ar ei Awdurdod fod yn £500,000 oherwydd twf yn y boblogaeth. Gofynnodd i'r cyllid gwaelodol gwmpasu dwy flynedd. Byddai angen i'r Cyngor gytuno ar y gyllideb leol ac roedd disgwyl i hyn ddigwydd cyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol. Felly, gofynnodd am beidio â gwneud unrhyw newidiadau sylweddol rhwng y setliadau dros dro a therfynol.

18. Dywedodd y Gweinidog na allai sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau sylweddol. Gallai arian ychwanegol ddod i'r fei o ganlyniad i unrhyw Gyllideb i'r DU ym mis Ionawr. Hefyd, nododd fod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth nad oes gostyngiad yn y £593 miliwn o'r Cylch Gwario o ganlyniad i unrhyw newid yn y Llywodraeth yn dilyn yr etholiad. Byddai angen adlewyrchu unrhyw newidiadau i lywodraeth leol yn y setliad terfynol.
19. Nododd y Gwir Anrh. Alun Michael yr anawsterau yn amseriad setliad yr heddlu gan y Swyddfa Gartref gan fod dwyn praesept yr heddlu gerbron paneli plismona erbyn diwedd Ionawr yn ofynnol yn gyfreithiol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Swyddfa Gartref yn gallu dweud pryd y gwneir penderfyniad gweinidogol ar setliad yr heddlu. Fe wnaeth ymrwmo i roi'r newyddion diweddaraf i Weinidogion. Hefyd, nododd ef bwysau ar gyllidebau o ganlyniad i'r swyddogion ychwanegol a gyhoeddwyd eleni, gan nad ydynt wedi'u hariannu'n llawn. Roedd ansicrwydd hefyd ynghylch cyllid trawsnewid yr heddlu ar gyfer rhaglenni gostwng traïs.
20. Nododd y Gweinidog y gallai, pe bai unrhyw oedi posibl arall i Gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, fod angen edrych ar y dyddiadau y mae'n rhaid gosod cyllidebau llywodraeth leol erbyn mewn deddfwriaeth.

Eitem Agenda 4: Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu – Diweddariad ar drin y boblogaeth

21. Cyflwynodd Jon Rae y papur gan nodi mai'r un adroddiad oedd hwn, yn ei hanfod, â'r adroddiad y gwnaeth swyddogion ei ddwyn gerbron yr Is-grŵp Cyllid diwethaf, ond roedd ffigurau'r boblogaeth wedi'u diweddarau. Mae oedi i amcanestyniadau is-genedlaethol 2017 Llywodraeth Cymru oherwydd gwahaniaethau mewn tueddiadau yn y dyfodol o gymharu â'r amcanestyniadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Galwyd cyfarfod arbennig o'r Is-grŵp Dosbarthu, trwy delegynadleda, a ystyriodd bedwar opsiwn. Hefyd, derbyniodd CLILC gyngor gan eu hystadegwyr eu hunain yn Data Cymru ac roedd un aelod annibynnol o'r Is-grŵp Dosbarthu yn bresennol. Barn y mwyafrif oedd defnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn diweddaraf 2018, ond eu cyflwyno dros gyfnod o 2 flynedd. Byddai'r aildosbarthiad dangosol yn fframio trafodaeth yng nghyfarfod Cyngor CLILC. Diolchwyd i swyddogion am brosesu'r holl ffigurau mor gyflym i ddarparu'r opsiynau.
22. Deallodd y Gweinidog fod y penderfyniad yn gydsyniol i raddau helaeth ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau gan yr Is-grŵp Cyllid ynghylch triniaeth

argymelledig y boblogaeth yn y setliad ar gyfer 2020-21. Roedd y Gweinidog yn fodlon gweithredu'r diweddariadau i'r boblogaeth ar y sail honno.

23. Dywedodd Jon Rae ei fod wedi cael e-bost gan y Cyng. Fox am y dosbarthiad, y byddai'n ei drosglwyddo i swyddogion ar gyfer y cofnod.

Eitem Agenda 5: Unrhyw Fater Arall

24. Atgoffodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yr aelodau am ddatganiad a wnaeth ar 5 Tachwedd ar y trydydd adroddiad ar ddiwygio cyllid a threth llywodraeth leol. Cytunodd ddosbarthu'r adroddiad ar ôl y cyfarfod. Mae'r adroddiad yn myfyrio ar gyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd i'r aelodau am eu gwaith ar y cyd i gyflawni deilliannau.

25. Roedd y cyflawniadau hyn yn cynnwys camau a gymerwyd i ddileu dedfrydau o garchar am fethu talu'r dreth gyngor, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fenywod. Hefyd, roedd yn cynnwys gwaith ar ddileu rhwymedigaethau'r dreth gyngor i ymadawyr gofal a safoni'r cymorth i bobl â nam meddyliol. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei bod yn ymwybodol o ychydig achosion lle'r oedd ymadawyr gofal wedi mynd i ddyled y dreth gyngor cyn i'r rheolau newydd ddod i rym ac apeliodd am ymdrin â'r achosion hyn yn sensitif. Hefyd, nododd fod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd ar sicrhau bod y cytundeb ar ôl-ddyddio taliadau ar gyfer nam meddyliol difrifol yn cael ei gymhwyso'n gyson.

26. Amlygodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yr ymgynghoriad ar ryddhad ardrethi elusennol ar gyfer ysgolion preifat ac ysbytai preifat, a gyhoeddir ym mis Rhagfyr.

27. Mae darnau o waith ar y posibilrwydd o ddiwygio trethi lleol yn y tymor canol a'r tymor hir yn parhau ynghylch y dreth gwerth tir ac effaith y credyd cynhwysol ar gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae nifer o ddarnau o waith ymchwil i'w cyhoeddi rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol ac mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn awyddus i glywed y farn am y rhain. Mae hi'n awyddus bod unrhyw newidiadau yn fwy blaengar ac yn decach.

28. Nododd y Cyng. Hunt fod newidiadau i ddulliau casglu ac i ymadawyr gofal yn ddwy enghraifft dda o Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cydweithio. Nododd y bydd yr adroddiad a'r ymgynghoriad yn cael eu trafod yng nghyfarfod Cyngor CLILC ac y byddai ymateb yn cael ei ddarparu yn dilyn hynny.

29. Diolchodd y Farwnes Wilcox i'r Gweinidog, i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, i'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Cymru ac i'r Prif Weinidog am y newid yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn gweithredu gyda'i gilydd

Cyfarfod Is-grŵp Cyllid – 20 Tachwedd 2019
Cofnodion y Cyfarfod

ac am fod mor agored. Nododd ei bod hi'n falch bod y ddau a benodwyd yn ddiweddar yn arweinwyr cyngor ill dwy yn fenywod. Dymunodd yn dda i'r grŵp at y dyfodol.

30. Diolchodd y Gweinidog i Farwnes Wilcox am ei gwaith fel arweinydd CLILC a dywedodd y bu'n bleser gweithio gyda hi. Roedd hi wrth ei bodd o weld mwy o fenywod mewn rolau arwain. Teimlai fod rôl y Farwnes yn y dyfodol yn dda iawn i Gymru.
31. Gofynnodd y Cyng. Morgan a fyddai sgwrs am gyllid cyfalaf yn gallu parhau oherwydd byddai cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2020-21 yn fuddiol.
32. Cadarnhaodd y Gweinidog fod cyfarfod yr Is-grŵp cyllid ar 4 Rhagfyr wedi'i ganslo. Byddai'r cyfarfod nesaf ar 29 Ionawr oni bai bod angen unrhyw gyfarfodydd ychwanegol o ganlyniad i newidiadau sylweddol yn deillio o etholiad neu gyllideb y DU.